Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad: Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

Mae Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru am archwilio effaith strategaethau ar bobl 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru.

Materion sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor

- A yw strategaethau Llywodraeth Cymru'n effeithiol wrth sicrhau canlyniadau i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;
- Sut y mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chanolfan Byd Gwaith yng Nghymru i sicrhau ymateb polisi cydlynol i fynd i'r afael ag amgylchiadau pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;
- I ba raddau y mae strategaethau datblygu economaidd a chyflogaeth Llywodraeth Cymru (er enghraifft, Rhaglen Adnewyddu'r Economi sydd ar ddod) yn mynd i'r afael â'r problemau sy'n effeithio ar bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (ac yn benodol y rhai sydd dros 18 oed);
- Beth yn union y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i fynd i'r afael ag anghenion y bobl ifanc hynny sy'n wynebu'r risg mwyaf o ddod yn NEET a grwpiau penodol sydd mewn perygl (yn cynnwys Sipsiwn-Teithwyr, ffoaduriaid a phobl ifanc sy'n ceisio lloches, troseddwyr ifanc, gofalwyr ifanc, plant sy'n derbyn gofal, pobl sy'n gadael gofal a rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig);
- Statws y trefniadau/trafodaethau ynghylch ariannu strwythurol presennol/y dyfodol ar gyfer cyflawni polisïau ar gyfer pobl NEET yng Nghymru;
- Pa mor effeithiol yw partneriaethau/cydweithio wrth fynd i'r afael â materion NEET yng Nghymru ac a oes dyblygu gwaith yn y maes hwn;
- Goblygiadau adolygiad presennol Llywodraeth Cymru o wasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru i'r y modd y caiff polisïau ar gyfer pobl NEET eu rhoi ar waith.

Amserlen
Trefnwyd tri chyfarfod ar gyfer yr ymchwiliad hwn (10, 17 a 24 Mehefin). Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael tystiolaeth ysgrifenedig gan unrhyw sefydliad neu unigolyn sydd â diddordeb.

Dylid e-bostio cyfraniadau ysgrifenedig, neu eu hanfon at Glerc y Pwyllgor:

Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Enterprise.learning.comm@Wales.gsi.gov.uk.